Swansea University Prifysgol Abertawe | Student Life Bywyd Myfyrwyr

Chwilio: bywydmyfyrwyr



# Newyddion GO!

| Darganfod - Cyfoethogi - Cysylltu |

## Annwyl Ddarllenwr,

Croeso i'n Rhifyn y Gwanwyn 2026!

Gobeithiwn eich bod wedi cael amser gwych yn Abertawe hyd yn hyn! Gyda'r dyddiau'n ymestyn a'r haul yn dechrau disgleirio erbyn hyn, gobeithiwn y gallwch fwynhau'r traethau niferus a'r lleoedd awyr agored prydferth eraill sydd gan Abertawe i'w cynnig! Edrychwch ar ein rysáit ar gyfer y gwanwyn - efallai fod hwn yn rhywbeth y gallwch chi roi cynnig arno gyda'ch ffrindiau neu eich cyd-letywyr. Amcan y digwyddiadau hyn yw rhoi cyfle i chi gwrdd â phobl newydd, dod i adnabod yr ardal leol ac, yn bwysicaf oll, fwynhau eich profiad yn y Brifysgol!

Rydym yn cynnal ein gweithgareddau drwy gydol y flwyddyn.

Os hoffech chi awgrymu digwyddiad, e-bostiwch gosocial@abertawe.ac.uk - rydyn ni'n gwerthfawrogi'ch syniadau!

*Emma, Fiona, Abbie, Nick, Nic, Mike, Kayleigh, Beth, Clare*

VISA Advice



## VISA Advice Team

Yma i helpu

Mae Tîm Cyngor VISA yma i helpu a chefnogi myfyrwyr rhyngwladol sydd ag ymholiadau nad ydynt yn academaidd. Yn benodol gallwn helpu gyda fisâu a mewnfudo, cwestiynau teuluol rhyngwladol ac agweddau diwylliannol byw yn y DU. Rydym hefyd yn darparu cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol ac adeiladu cymunedau trwy ein Rhaglen GO!

Ewch i'n gwefan i archwilio ein tudalennau cyngor ac arweiniad, yn ogystal â manylion ar sut y gallwch gysylltu â ni drwy e-bost, Sgwrs Fyw, gwe-seminarau ad hoc neu weithgareddau ar-lein eraill:

www.swansea.ac.uk/visa-advice

Mae gennym ni ein cyfrif Instagram hefyd, lle gallwch chi ein tagio ni a phan fyddwch chi'n mynd i ddigwyddiadau, cadwch lygad am eich lluniau!

https://www.instagram.com/bywydmyfyrwyr

**Beth sy'ndigwydd?**

Bydd ein rhaglen gymdeithasol yn llawn gweithgareddau cyffrous i wneud eich amser yma hyd yn oed yn fwy pleserus! Dyma restr o rai o'n digwyddiadau sydd ar ddod:

- 16 Mawrth - GO! Digwyddiad Cymdeithasol x Aml-Ffydd: Holi
- 17 Mawrth - GO! Digwyddiad Cymdeithasol x Aml-Ffydd: Holi
- 19 Mawrth - GO! Cyfle i gymdeithasu: Cwrdd a chymysgu - Dinbych-y-Pysgod
- 21 Mawrth - GO! Taith Bod yn Actif: Dinbych-y-Pysgod
- 25 Mawrth - GO! Cyfle i gymdeithasu: Bowlio deg
- 31 Mawrth - GO! Bwyta: Abyssinia
- 14 Ebrill - GO! Cyfle i gymdeithasu: Sesiwn gymdeithasol i fyfyrwyr PhD
- 15 Ebrill - GO! Cyfle i gymdeithasu: Crefftau Ymlacio
- 15 Ebrill - Caffi Iaith a Diwrnod Celf y Byd
- 21 Ebrill - GO! Bwyta: G & F Afro
- 22 Ebrill - GO! Cyfle i gymdeithasu: Diwrnod Rhyngwladol y Ddaear
- 25 Ebrill - GO! Taith: Henffordd
- 9 Mai - GO! Trip x y Gymdeithas Geowyddoniaeth: Big Pit a'r Fenni

Gellir archebu'r rhain i gyd yn:

https://university-swansea.native.fm/group/5010/student-life-go



## Digwyddiad Cipolwg yn ôl ar Raglen GO!

### GO! Bwyta: New Slow Boat

Our GO! events can vary, from calming crafts, bingo, pub quiz to trips around the UK! This time round, take a look at what our students thought of our supper club, especially for Lunar New Year! For only £12, then food was endless, even enough for leftovers to be taken home!

"Pobl wych, awyrgylch da a bwyd blasus"

"Y peth gorau amdano oedd y bwyd a'r bobl!"!"

"Gwnes i fwynhau'r digwyddiad yn fawr ac yn gobeithio y bydd llawer mwy i ddod"

## Y Gornel Cyngor ar fisâu

TOP TIPS

Hoffai'r tîm Cyngor ar Fisâu achub ar y cyfle hwn i atgoffa'r holl ddeiliaid Fisa Llwybr Myfyrwyr i edrych ar eu tudalen we Cyfrifoldebau Fisa i sicrhau eu bod yn ymwybodol o bopeth mae angen iddyn nhw ei wybod/ei wneud i gadw'n ddiogel a chael dyfodol didrafferth.

Sicrhewch eich bod yn gwylio'r fideo 3 munud ar y dudalen we sydd ar gael yma: https://hwb.swansea.ac.uk/international/visa-advice/visa-responsibilities/




Mae'r tîm hefyd yn argymell y dylai'r holl fyfyrwyr rhyngwladol gofrestru i gael cylchlythyr am ddim Cyngor Materion Myfyrwyr Rhyngwladol y DU (UKCISA), sef sefydliad annibynnol sy'n gofalu am fuddion myfyrwyr rhyngwladol yn y DU ac yn cynnig gwybodaeth werthfawr a chyfleoedd ar gyfer myfyrwyr.

UKCISA UK Council for International Student Affairs

## Rhaglen Wirfoddoli Tîm GO!

Mae gwirfoddoli yn ffordd wych o gwrdd â phobl, meithrin sgiliau cyflogadwyedd a chymryd rhan yn y gymuned.
Os hoffech wirfoddoli fel aelod o dîm GO!, ac am ragor o wybodaeth, cofrestrwch am gyfrif Discovery a chofrestrwch i fod yn Wirfoddolwr tîm GO! yma: https://volunteering.discoverysvs.org/volunteers/opportunity/10193151 neu e-bostiwch gosocial@abertawe.ac.uk.



**AR AGOR NAWR**


Y TU MEWN I HARBWR AR Y LLAWR CYNTAF O FULTON

Y LOLFA GROESO • GLOBAL LOUNGE

Bydd ein holl gyfryngau cymdeithas ol Singleton yma!

## Syniad Coginio: Caws pob

Mwynhewch ddarn o gaws pob Cymreig blasus, byrlymus a brown euraidd am ginio boddhaol y gallwch roi cynnig arno eich hun. Gallwch chi wneud fersiwn feganaidd neu lysieuol!



**Cynhwysion**

120ml o gwrw llwyd (a all fod yn ddi-alcohol)
25g o fenyn di-halen
25g o flawd plaen
140g o gaws aeddfed
1 llwyaid fwrdd o gennin syfi wedi'u torri'n fân
1 llwyaid fwrdd o saws Swydd Gaerwrangon (mae fersiynau llysieuol neu feganaidd ar gael)
2 dafell o fara
1 llwyaid fwrdd o bowdr mwstard Seisnig

**Dull**

- Mewn sosban fach, twymwch y cwrw yn ysgafn a rhowch ef o'r neilltu.
- Mewn sosban fach arall, toddwch y menyn dros wres canolig tan iddo ddechrau ewynnu, ychwanegwch y blawd a chymysgwch bopeth, gan ei goginio am 1 funud.
- Chwipiwch y cwrw twym yn raddol i greu saws trwchus ac yna ychwanegwch y caws gan ei chwipio i greu past trwchus.
- Ychwanegwch y mwstard, y saws Swydd Caerwrangon a'r cennin syfi at y saws a chymysgwch.
- Twymwch y gril i'r tymheredd uchaf. Rhowch y tafelli o fara ar silff bobi wastad a'u grilio ar un ochr tan eu bod yn frown euraid. Trowch y tafelli bara drosodd a thaenwch y cymysgedd caws drostyn nhw.
- Rhowch nhw yn ôl o dan y gril a'u coginio am 1-2 funud arall neu tan eu bod yn frown euraidd ac yn byrlymu.
- Bwytewch ar unwaith tra mae'r bwyd yn dwym o hyd!

## GO! Bwyta | Cost £10 (fel arfer)



Beth am ymuno â ni ar gyfer ein GO! Eat nesaf? Fel arfer, bydd ein bwyty lletyol yn rhoi bwydlen sefydlog o £10 i ni ac mae digon o fwyd bob amser! Cadwch lygad ar ein cyfryngau cymdeithasol i weld ble rydyn ni'n mynd nesaf! https://www.instagram.com/studentlifesu/